# Canllaw Adnoddau

Pwrpas y canllaw adnoddau hwn: Mae'r wybodaeth yn rhoi trosolwg i ganolfannau o'r canllawiau ynghylch yr adnoddau a'r cymorth i ddysgwyr y bydd eu hangen i ddarparu'r gyfres newydd o gymwysterau Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu yng Nghymru. Cofiwch efallai y bydd gofynion ychwanegol i ddarparu'r brentisiaeth lawn

| Cam | Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) | Cymhwyster Craidd mewn Adeiladu neu Beirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) (Mae hyn ar gyfer dysgwyr sy'n mynd yn syth i brentisiaeth) | Cynnydd mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) Llwybrau masnach dewisol | Lefel 3 mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu Llwybrau masnach dewisol | Cynnydd mewn Adeiladu (Lefel 2) Llwybrau Masnach Dewisol | Lefel 3 mewn Adeiladu Llwybrau Masnach Dewisol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Cam cyn darparu | Gwneud cais am gymeradwyaeth | Gwneud cais am gymeradwyaeth | Gwneud cais am gymeradwyaeth | Gwneud cais am gymeradwyaeth | Gwneud cais am gymeradwyaeth | Gwneud cais am gymeradwyaeth |
| Cofrestru dysgwyr | Cofrestru dysgwyr Dewis dau lwybr masnach | Cofrestru dysgwyr Dewis un llwybr masnach | Cofrestru dysgwyr Dewis un llwybr masnach | Cofrestru dysgwyr Dewis un llwybr masnach | Cofrestru dysgwyr Dewis un llwybr masnach | Cofrestru dysgwyr Dewis un llwybr masnach |
| Cyflawni | Darparu cynnwys y cymhwyster:<br>• 6 uned graidd<br>• Dau lwybr masnach<br><br>Darparu a goruchwylio, gwaith wedi'i osod a'i farcio'n allanol, prawf iechyd a diogelwch amlddewis (mae'r manylion yn cael eu hadolygu)<br>Adolygu cynnydd dysgwyr o bryd i'w gilydd | Darparu cynnwys y cymhwyster:<br>• 6 uned graidd<br>• Un llwybr masnach<br><br>Darparu a goruchwylio, gwaith wedi'i osod a'i farcio'n allanol, prawf iechyd a diogelwch amlddewis (mae'r manylion yn cael eu hadolygu)<br><br>Adolygu cynnydd dysgwyr o bryd i'w gilydd | Darparu cynnwys y rhaglen:<br>• 4 uned graidd<br>• Unedau masnach-benodol<br><br>Adolygu cynnydd dysgwyr o bryd i'w gilydd | Darparu cynnwys y cymhwyster:<br>• Cyfarfod cychwynnol â chyflogwyr i nodi'r ystod o dasgau sydd eu hangen i fodloni gofynion galwedigaethol y diwydiant.<br>• Datblygu archwiliad sicrhau ansawdd ar gyfer proses gadarnhau'r cyflogwr.<br>• Adolygiadau cyfnodol o gynnydd ac archwiliadau ansawdd o dystiolaeth.<br>• Cyfarfod adolygu terfynol gyda'r cyflogwr a chwblhau'r ddogfen gadarnhau. | Darparu cynnwys y rhaglen:<br>• 4 uned graidd<br>• Unedau masnach-benodol<br><br>Adolygu cynnydd dysgwyr o bryd i'w gilydd | Darparu cynnwys y cymhwyster:<br>• Cyfarfod cychwynnol â chyflogwyr i nodi'r ystod o dasgau sydd eu hangen i fodloni gofynion galwedigaethol y diwydiant.<br>• Datblygu archwiliad sicrhau ansawdd ar gyfer proses gadarnhau'r cyflogwr.<br>• Adolygiadau cyfnodol o gynnydd ac archwiliadau ansawdd o dystiolaeth.<br>• Cyfarfod adolygu terfynol gyda'r cyflogwr a chwblhau'r ddogfen gadarnhau. |

| Cam | Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu<br>a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu<br>(Lefel 2) | Cymhwyster Craidd mewn Adeiladu neu Beirianneg Gwasanaethau Adeiladu<br>(Lefel 2)<br>(Mae hyn ar gyfer dysgwyr sy'n mynd yn syth i brentisiaeth) | Cynnydd mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu<br>(Lefel 2)<br>Llwybrau masnach dewisol | Lefel 3 mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu<br>Llwybrau masnach dewisol | Cynnydd mewn Adeiladu (Lefel 2)<br>Llwybrau Masnach Dewisol | Lefel 3 mewn Adeiladu<br>Llwybrau Masnach Dewisol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgysylltu â chyflogwyr | | | | • Cwrdd â'r cyflogwr i gytuno ar ofynion yr asesiad prosiect ymarferol seiliedig ar waith.<br>• Cyflwyniad i gynllunio tasgau a dogfennau proses ar gyfer y prosiect ymarferol. | | • Cwrdd â'r cyflogwr i gytuno ar ofynion yr asesiad prosiect ymarferol seiliedig ar waith.<br>• Cyflwyniad i gynllunio tasgau a dogfennau proses ar gyfer y prosiect ymarferol. |
| Paratoi ar gyfer asesiad | **Paratoi dysgwyr ar gyfer asesiadau:**<br>• Crynhoi<br>• Adolygu<br>• Techneg asesu | **Paratoi dysgwyr ar gyfer asesiadau:**<br>• Crynhoi<br>• Adolygu<br>• Techneg asesu | **Paratoi dysgwyr ar gyfer asesiadau:**<br>• Crynhoi<br>• Adolygu<br>• Techneg asesu | • Asesydd i fod yn gyfrifol am gynllunio tasgau a dogfennau proses ar gyfer y prosiect ymarferol.<br>• Asesydd yn cwblhau ac yn cytuno ar gynllunio tasgau gyda'r cyflogwr.<br>• Cwblhau dogfennaeth cynllunio tasg<br>• Asesydd i gwblhau cynlluniau arsylwi prosiect ymarferol | **Paratoi dysgwyr ar gyfer asesiadau:**<br>• Crynhoi<br>• Adolygu<br>• Techneg asesu | • Asesydd i fod yn gyfrifol am gynllunio tasgau a dogfennau proses ar gyfer y prosiect ymarferol.<br>• Asesydd yn cwblhau ac yn cytuno ar gynllunio tasgau gyda'r cyflogwr.<br>• Cwblhau dogfennaeth cynllunio tasg<br>• Asesydd i gwblhau cynlluniau arsylwi prosiect ymarferol |

| Cam | Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) | Cymhwyster Craidd mewn Adeiladu neu Beirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) (Mae hyn ar gyfer dysgwyr sy'n mynd yn syth i brentisiaeth) | Cynnydd mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) Llwybrau masnach dewisol | Lefel 3 mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu Llwybrau masnach dewisol | Cynnydd mewn Adeiladu (Lefel 2) Llwybrau Masnach Dewisol | Lefel 3 mewn Adeiladu Llwybrau Masnach Dewisol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asesiad | Rheoli asesiadau<br>• Prawf amlddewis wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n allanol<br>• Prosiect wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n fewnol<br>• Trafodaeth dan arweiniad wedi'i hasesu'n fewnol | Rheoli asesiadau<br>• Prawf amlddewis wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n allanol<br>• Prosiect wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n fewnol<br>• Trafodaeth dan arweiniad wedi'i hasesu'n fewnol | Rheoli asesiadau<br>• Prosiect wedi'i leoli yn y ganolfan (yn benodol i Fasnach) wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n fewnol<br>• Prawf amlddewis wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n allanol<br>• Trafodaeth dan arweiniad wedi'i hasesu'n fewnol | Rheoli asesiadau<br>• Prosiect ymarferol yn y diwydiant – yn fewnol (cyflogwr/darparwr) wedi'i osod yn fewnol a'i asesu a'i farcio'n fewnol<br>• Prawf/profion amlddewis wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n allanol<br>• Trafodaeth broffesiynol wedi'i hasesu'n allanol | Rheoli asesiadau<br>• Prosiect wedi'i leoli yn y ganolfan (yn benodol i Fasnach) wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n fewnol<br>• Prawf amlddewis wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n allanol<br>• Trafodaeth dan arweiniad wedi'i hasesu'n fewnol | Rheoli asesiadau<br>• Prosiect ymarferol yn y diwydiant – yn fewnol (cyflogwr/darparwr) wedi'i osod yn fewnol a'i asesu a'i farcio'n fewnol<br>• Prawf/profion amlddewis wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n allanol<br>• Trafodaeth broffesiynol wedi'i hasesu'n allanol |
| Sicrhau ansawdd | Sicrhau Ansawdd Mewnol y Prosiect, trafod a chyflwyno canlyniadau | Sicrhau Ansawdd Mewnol y Prosiect, trafod a chyflwyno canlyniadau | Sicrhau Ansawdd Mewnol y Prosiect, trafod a chyflwyno canlyniadau | Sicrhau Ansawdd Mewnol y Prosiect, trafod a chyflwyno canlyniadau | Sicrhau Ansawdd Mewnol y Prosiect, trafod a chyflwyno canlyniadau | Sicrhau Ansawdd Mewnol y Prosiect, trafod a chyflwyno canlyniadau |
| Dilysu | Dilysu'n allanol | Dilysu'n allanol | Dilysu'n allanol | Dilysu'n allanol | Dilysu'n allanol | Dilysu'n allanol |
| Ardystio | Consortiwm i Ardystio'r dysgwr | Consortiwm i Ardystio'r dysgwr | Consortiwm i Ardystio'r dysgwr | Consortiwm i Ardystio'r dysgwr | Consortiwm i Ardystio'r dysgwr | Consortiwm i Ardystio'r dysgwr |

| Cam | Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu<br>a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu<br>(Lefel 2) | Cymhwyster Craidd mewn Adeiladu neu Beirianneg Gwasanaethau Adeiladu<br>(Lefel 2)<br>(Mae hyn ar gyfer dysgwyr sy'n mynd yn syth i brentisiaeth) | Cynnydd mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu<br>(Lefel 2)<br>Llwybrau masnach dewisol | Lefel 3 mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu<br>Llwybrau masnach dewisol | Cynnydd mewn Adeiladu (Lefel 2)<br>Llwybrau Masnach Dewisol | Lefel 3 mewn Adeiladu<br>Llwybrau Masnach Dewisol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | **Mae'r hyfforddiant Craidd a Sylfaen yn galw am weithdai gydag offer llawn ar gyfer llwybrau masnach:**<br>• Mae'n cynnwys offer a chyfarpar sy'n rhoi lle hyblyg, addas i ddysgwyr weithredu'n ddiogel.<br>• Rhaid i weithdai a deunyddiau fod ar gael ar gyfer yr holl hyfforddiant sylfaenol, yr asesiadau neu'r gweithgareddau ymarferol angenrheidiol.<br>• Deunyddiau ac offer nodweddiadol sydd eu hangen ar gyfer crefftau llwybr a ddewiswyd er mwyn gallu hyfforddi ac asesu. | | **Mae'r hyfforddiant Dilyniant Plymio yn galw am weithdy gydag offer llawn ar gyfer y llwybr masnach:**<br>• Gweithdy plymio yn cynnwys offer plymio, offer sodro, meinciau ar gyfer hyfforddiant gwaith plymio a chynnal a chadw nodweddiadol.<br>• Offer ystafell ymolchi, offer gwresogi, defnydd hyblyg o waliau/llefydd gwag ar gyfer hyfforddiant.<br>• Ffosydd, offer plygu pibelli, sgriwdreifars, morthwylion, driliau, offer sodro, sbaneri y gellir eu haddasu a detholiad o ddeunyddiau traul.<br>• Ardal Plymio - man asesu sgwâr 2.4m ar gyfer efelychu gyda gwasanaethau byw a phwyntiau ynysu.<br>• Lle chwech smalio gyda chypyrddau aer sy'n cynnwys gwresogydd, silindr, basn, toiled, a jig boeler combi<br>• Amrywiaeth o ddeunyddiau gwaith pibellau nodweddiadol fel copr, plastig, dur carbon isel (LCS), a ffitiadau cysylltiedig.<br><br>**Mae'r hyfforddiant Dilyniant Trydanol yn galw am weithdy gydag offer llawn ar gyfer y llwybr masnach:**<br>• Ystod o systemau gwifrau nodweddiadol ac offer ar gyfer systemau domestig, masnachol a diwydiannol.<br>• Cebl gwifr dur (SWA), PVC/PVC, PVC Sengl, MI, seliau cebl, cwndid PVC, tiwb PVC ar gyfer ceblau, tiwb dur ar gyfer ceblau, cwndid dur, estyll ceblau.<br>• Uned defnyddwyr cydwedd sengl.<br>• Ategolion a chydrannau gan gynnwys clipiau, cleddau a ffitiadau.<br>• Mannau gyda nenfwd neu drawstiau (neu debyg) i allu gosod tiwbiau PVC. | | **Prentisiaeth adeiladu:**<br>• Gweithdai gydag offer llawn ac ystod gynhwysfawr o offer pŵer llaw a chludadwy sy'n bodloni safonau cyfredol y diwydiant.<br>• Bydd gan ganolfannau giwbiclau dynodedig neu ardaloedd prosiect sy'n cefnogi hyfforddiant ymarferol ar y sgiliau, a'r technegau y mae angen i'r ymgeisydd eu dysgu i gwblhau'r prosiect yn y maes a'r llwybr masnach o'u dewis. | |

## Adnoddau Gweithdy Cyffredinol

Rhaid i offer, systemau a pheiriannau'r gweithdy fodloni safonau diwydiannol cyfredol a bod modd eu defnyddio dan amodau gwaith arferol. Dylai maint y gweithdy fod yn ddigonol ar gyfer nifer yr ymgeiswyr ac ni ddylai fod yn beryglus i iechyd a diogelwch tra bo gweithgareddau tasgau ymarferol yn mynd rhagddynt. Bydd manylion llawn y gweithdy a'r gofynion o ran deunydd ac offer yn cael eu cyhoeddi drwy ddogfennau cyfarwyddyd sector-benodol.

### Offer a lleoliad y gweithdy

Rhaid i'r ganolfan gymeradwy sicrhau bod adnoddau'n galluogi cwblhau'r holl aseiniadau ymarferol, gan gynnwys:

- Deunyddiau a ffitiadau
- Offer diogelu (i safon sy'n dderbyniol yn fasnachol)
- Offer a chyfarpar
- Cyflenwadau trydanol (pan fo angen) rhaid i'r rhain fod yn 110V lle bo modd, dylid eu cloi gydag chaeadau argyfwng a bodloni gofynion asesiadau risg y ganolfan ei hun

Dylid lleoli meinciau ac offer sefydlog i wneud yn siŵr bod y man gweithio yn glir a heb rwystr, a fydd yn caniatáu mynediad hawdd os bydd argyfwng. Dylid cadw man cerdded o un metr o led o leiaf rhwng rhesi o feinciau; ond os yw pobl yn gweithio cefn wrth gefn rhwng meinciau, ni ddylai'r lle gwag fod yn llai na 1.5 metr.

### Cyfleusterau storio

Dylai'r storfa ddeunyddiau fod wrth ymyl y gweithdy. Rhaid gosod silffoedd a raciau ar y rhain fel bod yr offer a'r deunyddiau'n cael eu storio mewn ffordd ddiogel a threfnus gyda stoc ddigonol ar gael ac mewn cyflwr da.

Sylwer:
Rhaid i ganolfannau sy'n defnyddio hylifau fflamadwy a nwyon gwasgedd isel ystyried y gofynion arbennig sydd eu hangen i storio'r eitemau hyn yn ddiogel.

### Diogelwch

- Sesiwn gynefino – Mae angen i'r ganolfan ddarparu sesiwn gynefino lawn ar gyfer iechyd a diogelwch cyn dechrau ar weithgareddau ymarferol (naill ai hyfforddiant neu asesiad) yn y gweithdy ymarferol.
- Cyfarpar Diogelu Personol – Rhaid i'r ganolfan roi cyfarpar diogelu personol digonol a phriodol i staff a dysgwyr yn unol ag asesiadau risg a datganiadau dull
- Asesiadau risg/Datganiadau Dull – Asesiadau risg a datganiadau dull diweddar a digonol i ganiatáu gweithio diogel ar yr ystod lawn o aseiniadau ymarferol.
- Hysbysiadau statudol – Mae'r holl hysbysiadau statudol a chynghori angenrheidiol yn cael eu harddangos yn amlwg gan y ganolfan wrth ymyl eitemau/lleoliadau y maent yn cyfeirio atynt.
- Offer diogelwch – Rhaid gosod a defnyddio sgriniau diogelwch ar bob peiriant gweithdy.
- Swyddogion Cymorth Cyntaf/Unigolion Cyfrifol sydd wedi'u hyfforddi – Dylai'r unigolion hyn fod ar gael yn rhwydd bob amser pan fydd dysgwyr yn bresennol yn y gweithdy. Dylid arddangos enw(au) a lleoliad(au) y swyddog cymorth cyntaf neu'r person cyfrifol yn amlwg yn ardal y gweithdy.
- Blychau cymorth cyntaf – Rhaid rhoi'r rhain yn y gweithdy a dylai eu cynnwys gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a'r Safonau cyfredol.
- Allanfeydd tân – Rhaid gwneud darpariaeth ddigonol i ganiatáu i'r rheini sydd yn y gweithdy ddianc rhag tân.

## Cyfleusterau ystafell ddosbarth

Bydd angen ystafell ddosbarth briodol gyda digon o seddi a gofod priodol ar gyfer cyflwyno'r theori ar gyfer dysgu academaidd.

### Deunydd ymchwil priodol

Mynediad at yr ystod lawn o reoliadau adeiladu, dogfennau deddfwriaethol a dogfennau cymeradwy y cyfeirir atynt yn ystod y ddarpariaeth. Gall hwn fod ar gael ar ffurf copi caled neu ar-lein.

### Offer TG

Offer TG priodol i alluogi mynediad at y rhyngrwyd at ddibenion ymchwil ac argaeledd adnoddau ar gyfer gwaith prosesu geiriau perthnasol.

## Gofynion aseswyr

### Rhaid i aseswyr y cymhwyster sicrhau'r canlynol:

- bod yn gymwys yn alwedigaethol; mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob asesydd allu cyflawni gofynion llawn yr ardal y maent yn ei hasesu i o leiaf yr un lefel. Mae cymhwysedd galwedigaethol yn golygu eu bod yn hyddysg yn yr alwedigaeth honno hefyd. Gellid cadarnhau hyn drwy gyfuniad o'r canlynol:
    - Curriculum vitae a chymeradwyaeth neu eirdaon cyflogwr.
    - Meddu ar NVQ/SVQ perthnasol, neu gymhwyster galwedigaethol cysylltiedig.
    - Aelodaeth o gorff proffesiynol perthnasol, neu gydnabyddiaeth ganddo
- cynnal eu cymhwysedd galwedigaethol drwy ddysgu a datblygiad proffesiynol parhaus sy'n berthnasol ac y gellir ei ddangos yn glir
- meddu ar y cymwysterau Asesu cyfredol, neu fod yn gweithio tuag atynt, hy
    - Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith neu
    - feddu ar Ddyfarniad A1 Aseswyr neu unedau D32/33

Os oes gan aseswyr gymwysterau asesydd etifeddol megis dyfarniad aseswyr A1, rhaid iddynt ddangos eu bod yn asesu yn unol â'r safonau asesu cyfredol. Mae City & Guilds/EAL hefyd yn derbyn cymwysterau asesu eraill sydd wedi'u hachredu ar lefel genedlaethol.

Wrth weithio tuag at gymhwyster asesu, rhaid cael trefniant cydlofnodi yn ei le gydag asesydd sydd wedi cymhwyso yn yr un maes galwedigaethol neu faes cysylltiedig.

Rhaid i'r ganolfan roi manylion y gweithwyr y mae'n bwriadu iddynt ymgymryd â'r gwaith Sicrhau Ansawdd Mewnol i City & Guilds/EAL, er mwyn gallu eu cymeradwyo cyn iddynt ddechrau ymgymryd â'r gwaith. Hefyd, cyn i'r asesiadau cyntaf gael eu cynnal, mae'n rhaid i Sicrhawyr Ansawdd Mewnol gael mynediad at ddiweddariadau drwy e-bost City & Guilds/EAL Gwneir hyn i sicrhau bod asesiadau mewn canolfannau yn ddibynadwy dros amser. Argymhellir bod gweithwyr yn cofrestru i gael gwybod am ddiweddariadau drwy e-bost drwy wefan skillsforwales.wales.

# Sicrhawyr Ansawdd Mewnol

## Rhaid i Sicrhawyr Ansawdd Mewnol wneud y canlynol:

- paratoi ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol City & Guilds/EAL a chymryd rhan ynddynt, fel digwyddiadau cynefino, hyfforddiant/Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a digwyddiadau hyfforddi a safoni, yn ogystal â sicrhau bod cynlluniau gwella / gweithredu personol yn cael eu cyflawni i'r safonau gofynnol ac yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt
- bod â lefel sylfaenol o brofiad galwedigaethol a thystiolaeth o hynny ar ffurf cymhwyster sy'n ymwneud ag adeiladu/ peirianneg gwasanaethau adeiladu neu brawf o brofiad/ cymhwysedd yn y sector sydd gyfwerth â lefel y cymhwyster o leiaf, er mwyn eu galluogi i ymgymryd â'u rôl fel Sicrhawyr Ansawdd Mewnol. Mae'r dystiolaeth hon yn cael ei sicrhau drwy ansawdd gan City and Guilds/EAL.
- bod yn gweithio tuag at, neu wedi cyflawni, cymhwyster Sicrhau Ansawdd Mewnol perthnasol a gydnabyddir, fel Dyfarniad Lefel 4 mewn Ymarfer a Phrosesau Asesu Sicrwydd Ansawdd Mewnol, ac yn parhau i ymarfer yn unol â'r safon honno. Rhaid i Sicrhawyr Ansawdd Mewnol sydd â chymwysterau blaenorol (V1 neu D34) ddangos tystiolaeth o DPP hyd at safonau diweddaraf y diwydiant.
- gallu dangos tystiolaeth bod eu gwybodaeth am y grefft/ diwydiant perthnasol yn gyfredol. Gellir cyflwyno tystiolaeth o hyn, er enghraifft, drwy gael gafael ar gyhoeddiadau am y grefft, mynd ar gyrsiau dysgu, mynd i ddigwyddiadau rhwydweithio sy'n berthnasol i'r cymhwyster a/neu fynd i ddigwyddiadau'r diwydiant.

Mae gan Sicrhawyr Ansawdd Mewnol rôl hollbwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau bod yr asesiad sy'n cael ei farcio gan y ganolfan wedi cael ei safoni. Dylent weithio gydag aseswyr i sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn bob amser a sicrhau bod penderfyniadau asesu gwahanol aseswyr yn gyson, yn deg ac yn ddibynadwy.

## Bydd y gweithgareddau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- cwrdd ag aseswyr (yn unigol a gyda'i gilydd) drwy gydol y cymhwyster i drafod materion cysylltiedig â safoni sicrhau ansawdd, a rhoi cymorth ac arweiniad iddynt lle bo angen,
- arsylwi aseswyr a rhoi adborth iddynt i'w helpu i wella eu technegau asesu
- samplu tystiolaeth ar draws gwahanol grwpiau i sicrhau bod y safonau priodol wedi cael eu bodloni,
- trefnu bod asesiadau'n cael eu marcio gan fwy nag un er mwyn cymharu canlyniadau a chytuno ar feincnodau yn unol â hyfforddiant City & Guilds/EAL.

Bydd City and Guilds/EAL yn rhoi arweiniad i sicrhawyr ansawdd mewnol canolfannau drwy gydol y broses o gyflwyno'r gyfres newydd o gymwysterau.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn y llawlyfrau cymwysterau.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir wrth fynd i'r wasg. Fodd bynnag, mae cynnyrch a gwasanaethau City & Guilds yn cael eu datblygu a'u gwella'n barhaus, a chedwir yr hawl i newid cynnyrch a gwasanaethau o bryd i'w gilydd. Ni all City & Guilds dderbyn cyfrifoldeb dros unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o ddefnyddio'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.

©2020 The City & Guilds of London Institute. Cedwir pob hawl.
Mae City & Guilds yn nod masnach i City & Guilds of London Institute, elusen a sefydlwyd i hybu addysg a hyfforddiant, ac mae wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (312832) ac yn yr Alban (SC039576).
5-6 Giltspur Street, Llundain EC1A 9DE.